Suzy Davies AC
Comisiynydd – Cyllideb a Llywodraethu
Drwy e-bost

6 Gorffennaf 2017

Annwyl Suzy

Tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau

Diolch i chi am ddod i'r Pwyllgor ar 29 Mehefin 2017 i drafod y ffordd y mae'r Comisiwn yn defnyddio'r tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Fel y gwyddoch, mae'r modd y mae'r Comisiwn yn defnyddio'r tanwariant wedi peri pryder i'r Pwyllgor am beth amser. Mae prif bryderon y Pwyllgor yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd y mae'r Comisiwn yn defnyddio'r tanwariant, bron fel 'clustog' ar gyfer gwariant y Comisiwn. Yn benodol, teimlai'r Pwyllgor y dylai prosiect o faint adnewyddu'r llawr gwaelod fod wedi dod i'w sylw yn gynharach.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y Pwyllgor, rydym hefyd wedi ystyried gohebiaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol. Yn sgil hyn, mae'r Pwyllgor yn gwneud y cais canlynol:

Cyllideb ddrafft y Comisiwn

Yn eich cyflwyniad i'r gyllideb ddrafft, hoffem i chi i ddarparu manylion pellach am yr uchafswm rydych yn gofyn amdano a rhagolwg cynnar o'r cyfanswm a ddisgwylir o wariant y penderfyniad, dylai hyn gynnwys eich amcangyfrif gorau o wariant yr Aelodau ar swyddfeydd, staff ac ati. Dylai hyn alluogi'r Pwyllgor i gael syniad o'r swm posibl yr ydych yn gofyn amdano fel swm 'wrth gefn'.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Gwybodaeth am y prosiectau a'r blaenoriaethau y gall unrhyw danwariant gael ei ddefnyddio.  Er ein bod yn gwerthfawrogi nad gwyddwr gywir yw hyn, fel y gwnaethoch ei esbonio yn y sesiwn dystiolaeth, ac y gwneir penderyfniadau drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, credwn y dylai'r Comisiwn ddarparu rhywfaint o dryloywder ar yr eitemau o benderfyniadau y bydd y tanwariant yn eu hariannu.

Barn y Pwyllgor yw bod y dull hwn yn cyd-fynd yn agosach ag ysbryd arweiniad Trysorlys EM ar gyfer cyllidebau i fod yn seiliedig ar "gynlluniau gwariant tynnn a realistig".

Yn gywir

Simon Thomas

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.